SYSTEM REOLI FEWNOL – Mawrth 2008

- Cyfrifoldeb y sawl sydd â'r awdurdod i lofnodi sieciau yw bodloni ei hunan fod unrhyw siec a lofnodir ganddo yn nodi'r swm cywir, a bod yna ddogfennau priodol yn ei chefnogi a bod y mater wedi'i awdurdodi'n iawn gan y Cyngor neu'r Pwyllgor Cyllid.

- Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn cynnal archwiliadau ar hap yn chwarterol ar 7 eitem o incwm a/neu wariant ar gyfer y chwarter hwnnw. Bydd yr archwiliadau hyn yn cynnwys eitemau a nodir ar daenlenni, bod y nodiadau cywir yn y cofnodion perthnasol, y rhifau siec wedi'u nodi'n gywir, y symiau cywir wedi'u nodi, y dogfennau cefnogi yn iawn, y TAW wedi'i gofnodi'n gywir, a'r cysoni wedi'i wneud yn y banc.

- Rhaid darparu Mantolen ddiweddaraf y Cyfrifon ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid er mwyn adolygu'n ffurfiol briodoldeb y fantolen gan gofnodi bod yr adolygu wedi'i wneud.

- Yng Nghyfarfodydd mis Gorffennaf, Hydref, Ionawr ac Ebrill o'r Pwyllgor Cyllid dylid darparu arolwg o'r union wariant yn erbyn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo. Yn y cyfarfodydd hyn rhaid i'r Pwyllgor ystyried a oes angen newid y gyllideb ac a oes angen newid unrhyw arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi.

- Bydd unrhyw benderfyniadau i roi cymorth ariannol i unrhyw unigolyn, grŵp neu gorff yn cynnwys cyfeiriad at y grym sy'n caniatáu rhoi'r cymorth.

- Yn ystod cyfarfod mis Rhagfyr o'r Pwyllgor Cyllid darperir Copi Drafft o'r Gyllideb Arfaethedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol ganlynol. Bydd hyn yn cynnwys cyllideb y flwyddyn bresennol a rhagolwg o incwm a gwariant tan ddiwedd y flwyddyn yn ogystal â ffigurau rhesymedig ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Y Cyngor yn ystod cyfarfod Llawn mis Rhagfyr fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran y gyllideb, a'r Archebiant.

- Bydd Cadeirydd unrhyw gyfarfod Llawn o'r Cyngor yn rhoi llythrennau ei enw ar bob tudalen o'r cofnodion sydd wedi'u cymeradwyo gan atodi rhifau dilyniannol mewn inc ar ben uchaf dde pob tudalen.

- Bob blwyddyn bydd y Cyngor yn cyflawni asesiad risg ariannol ffurfiol gan adrodd ar hyn yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Pwyllgor Cyllid. Rhaid i'r Pwyllgor ystyried y peryglon gan gofnodi eu sylwadau.

- O fewn 8 wythnos o ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'r hawliad yn cael ei wneud ynddi, bydd y TAW yn cael ei adennill.